# Adroddiad 2022-23

Cynhelir cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn y Neuadd Bentref ac ar Zoom ar nos Fawrth cyntaf y mis (ond nid yn Awst) am 7.30pm. Rhoddir hysbysiad o bob cyfarfod ar yr Hysbysfwrdd ar wal y Neuadd ac ar y wefan .www.cynghoraupenllyncouncils.co.uk (Llanuwchllyn)

### Cynghorwyr

Mae 11 Cynghorydd Cymuned yn cynrychioli ward Llanuwchllyn:

**Y Cynghorwyr**, Beryl Hughes Griffiths, (Cadeirydd), Euros Roberts, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Llinos Edwards, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones Alwyn Roberts, Dewi Wyn Jones, Huw P Roberts

**Cyngor Gwynedd:** Llanuwchllyn yw'r ward ar gyfer Cyngor Gwynedd, ac mae hefyd yn cynnwys Cyngor Cymuned y Glyn Llangywer, a Ward Cymuned Llanycil: Cynghorydd Alan Jones Evans*

**Clerc:** Lis Puw, cyngor-llanuwchllyn@outlook.com 07896964120

### Ariannol 2022-23

Incwm yn y flwyddyn: £17,641.54

Gwariant yn y Flwyddyn: £14,788.95

Mae'r cynnydd yn yr incwm yn bennaf oherwydd arian a dderbynnir fel rhoddion yn y toiledau.

### Cynllun Hyfforddi:

Hyfforddiant ar fod yn Gynghorydd os bydd aelodau newydd yn dilyn Etholiadau Mai 2022

**Archwilio:** Adroddiad yr Archwilydd Mewnol - ar y wefan

Adroddiad yr Archwilydd Allanol - heb ddod i law

### Amcanion ar gyfer y flwyddyn 2022-23:

### Cynnydd:

- **Cynllun Ardal wedi ei gwblhau:** Mae'r Cynllun Ardal erbyn hyn wedi ei gyflwyno i sefydliadau perthnasol fel Cyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol ac wedi cael derbyniad da. Yn ystod y noson goffi ym mis Chwefror cyflwynwyd y Cynllun i'r ardalwyr ar ôl rhannu taflenni i dai'r pentref yn esbonio ei gynnwys. Rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd ymateb ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad iddo.

- **Cyfleusterau Cyhoeddus:** Dengys y cyfraniadau hael a dderbynnir yn y cyfleusterau eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn fawr iawn. Rhagwelir y bydd yn rhaid gwario rhywfaint eto i ddatrys problemau o ran llif y dŵr yma.
- **Dathliadau'r Nadolig:** Cynhaliwyd nifer o weithgareddau er mwyn dathlu'r Nadolig gan gynnwys gosod coed Nadolig ger y Gilfach Goffa a'r Ysgoldy ynghyd ag ymweliadau gan Sion Corn ar nosweithiau yn ystod mis Rhagfyr. Unwaith eto cafwyd canmoliaeth mawr i'r gweithgareddau hyn gan drigolion lleol.
- **Trafodaethau gyda Grŵp Cynefin:** Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Gymdeithas Dai i drafod y ffordd ymlaen o ran datblygu tai ym Maes y Pandy. Esboniwyd safbwynt y Cyngor a chafwyd addewid y byddwn yn cael ein cynnwys yn y trafodaethau yn y dyfodol.
- **Gefeillio â'r Gaiman:** Yn dilyn trafodaethau ers rhai blynyddoedd mae'r broses efeillio yn dal i fynd yn ei blaen â'r llythyr swyddogol i gadarnhau hynny o'r Gaiman wedi cyrraedd.

**Bwriadau** ar gyfer y flwyddyn i ddod:

- Cydweithio gyda Cyngor Cymuned Llangywer a Chyngor Cymuned Llangywer i fapio'r ardal
- Cydweithio gyda Sylfeini, Cynefin, Cyngor Gwynedd ac Elusen Maurice Vaughan i ddarparu tai i bobl leol

**Ymgysylltu gyda'r Gymuned:** Mae'r Cynghorwyr yn adnabod eu hardal yn drwyadl gyda chynrychiolaeth o bob cwm ar y cyngor.

**Asedau:**

| Ased | Lleoliad | Disgrifiad | Gwerth £ |
|---|---|---|---|
| 1. Lloches Bws | Y Lôn | Adeilad carreg a llechen | 5020.00 |
| 2. Lloches Bws | Peniel | Adeilad carreg a llechen | 5020.00 |
| 3. Lloches Bws | Ty'n Ddol | Adeilad carreg a llechen | 5020.00 |
| 4. Lloches Bws | Y Llan (wrth yr Ysgol) | Gwneuthuriad plastig | 4224.00 |
| 5. Giât y Fynwent | Y Fynwent Newydd | Giât addurnedig | 4107.00 |
| 6. Hysbysfwrdd y Fynwent | Y Fynwent Newydd | Hysbysfwrdd ar y ffens | 600.00 |
| 7. Hysbysfwrdd y Fynwent | Y Fynwent Newydd | Hysbysfwrdd ar bolion | 735.00 |
| 8. Y Fynwent Newydd | | | 1.00 |
| 9. Byrddau Gwybodaeth | 5 safle o gwmpas y pentref | Gwybodaeth am yr ardal | 6500.00 |
| 10. Meinciau Pren | Y Gilfach Goffa | 2 sêt o bren | 800.00 |

Clerc: Lis Puw: 01678 540654 07896964120 Bedw Gwynion, Llanuwchllyn, Gwynedd LL23 7TW
cyngor-llanuwchllyn@outlook.com www.cynghoraucymunedpenllyncouncils.co.uk

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11. Meinciau Pren | • Y Fynwent<br>• Ciosg y Pentref<br>• Gwaelod rhiw Maes y Pandy | 3 sêt o bren | rhoddion |
| 12. Meinciau | Wrth y groesffordd am Gynllwyd | 1 sêt o bren<br>1 sêt o blastig | rhoddion |
| 13. Ciosg | Pont Penantlliw | Ciosg Ffôn | 1.00 |
| 14. Pwmp y Llan | Wrth Hen Dy'r Ysgol | Hen Bwmp dŵr y pentref | |
| 15. Cyfrifiaduron | Clerc, SAC | Gliniaduron - 2 | 1212.00 |
| Cyfanswm | | | **33220.00** |

**Cynllun Bioamrywiaeth:**

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau ar y cyd gydag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, yn cynnwys sesiwn darganfod pryfaid i'r ddisgyblion Ysgol O M Edwards, gosod bocsys nythu, sesiwn pladuro i'r Gymuned ym mynwent yr Eglwys

**Yn y flwyddyn nesaf:**

- cynnal y ddarpariaeth ar gyfer tylluanod a gwenoliaid duon
- parhau i gydweithio gyd Parc Cenedlaethol Eryri ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru